Prifysgol Bangor

## COFNODION Y CYNGOR

Mewn cyfarfod o’r Cyngor a gynhaliwyd yn y brifysgol ddydd Gwener, 24 Medi 2021.

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Mr James Avison, Mr Mabon Dafydd, yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Mr Atul Devani, Mr Eric Hepburn, Dr Griff Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Syr Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Ms Julie Perkins, Dr Ian Rees, yr Athro Gareth Roberts, yr Athro Oliver Turnbull, Mr Tudur Williams a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau**:
Yr Athro Andrew Edwards, Dr Karen Jones, Mr Kailesh Karavadra a Dr Lynne Williams

**Yn bresennol hefyd:**
Yr Athro Nicky Callow, Mr Rob Eastwood, Mrs Tracy Hibbert, Dr Kevin Mundy, yr Athro Paul Spencer, Mrs Lorraine Westwood a Mr Lars Wiegand.

Roedd yr Athro Jean White yn bresennol hefyd fel arsylwr, ac roedd Ms Helen Mortlock, Eversheds Sutherland LLP yn bresennol ar gyfer eitem 21.5.

### 21.1 CROESO

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod cyntaf ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Nodwyd mai'r cyfarfod oedd y cyfarfod hybrid cyntaf i'r Cyngor, gyda'r mwyafrif o aelodau'n bresennol yn y cnawd, yn Theatr Bryn Terfel, a nifer fach yn ymuno trwy Zoom.

### 21.2 LLONGYFARCHIADAU

A. Ar dderbyn Cadair Athro Gwadd:

   **Yr Athro David Goddard,** Prif Wyddonydd a Chymrawd mewn Gweithgynhyrchu Tanwydd Niwclear, Labordy Niwclear Cenedlaethol.

B. Ar ran y Cyngor llongyfarchodd y Cadeirydd yr Athro Goddard yn gynnes.

### 21.3 DATGANIADAU BUDD

Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol yn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

Datganodd Dr Griff Jones ddiddordeb mewn unrhyw faterion yn ymwneud â Grŵp Llandrillo Menai.

## 21.4 COFNODION

A. **Cadarnhawyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 23 Gorffennaf 2019.

B. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd gyda holl gamau gweithredu’r Cyngor sydd heb eu cyflawni. Nododd y Cyngor yr adroddiadau cynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

C. Mewn perthynas â Chofnod 20.96C [USS] adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro fod y brifysgol wedi gwrthod y gwrth-gynnig gan Ymddiriedolwyr yr USS gan gynnwys sicrwydd pari passu. Yn ogystal, nododd y Cyngor y penderfyniad diweddar gan Fwrdd Ymddiriedolwyr USS i gytuno ar y prisiad, gyda'r mater yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Roedd y brifysgol, unwaith eto, wedi ymateb i'r ymgynghoriad gan UUK yn yr un modd ag o'r blaen. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro y byddai'n darparu diweddariad pellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

D. Mewn perthynas â Chofnod 20.106B[2] [y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth] nodwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal rhwng Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Cyngor, lle cytunwyd y byddai adroddiad ar Pontio yn cael ei baratoi mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau a Champws. Caiff yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2021.

## 21.5 SIARTER ATODOL AC ORDINHADAU

A. Atgoffodd Mrs Hine yr aelodau o'r gwaith a oedd wedi bod ar y gweill ers nifer o fisoedd i newid y Siarter Atodol, Statudau ac Ordinhadau presennol gyda Siarter Atodol ac Ordinhadau newydd. Adroddwyd bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2020 [cofnod 19.87A], ynghyd â'r Senedd a'r Llys wedi ystyried y Siarter Atodol ddrafft arfaethedig, a bod y Cyngor wedi penderfynu gwneud cais anffurfiol i Swyddfa'r Cyfrin Gyngor i gymeradwyo'r Siarter arfaethedig newydd. Roedd y cais anffurfiol yn llwyddiannus, a gofynnwyd am ychydig o ddiwygiadau a adlewyrchwyd yn y drafft terfynol gerbron y Cyngor.

B. Ymunodd Ms Helen Mortlock, Eversheds Sutherland LLP â'r cyfarfod a dywedwyd wrth y Cyngor fel rhan o'r gwaith ar y Siarter Atodol ddrafft newydd, y byddai Statud XX (a'i Ordinhadau cysylltiedig) yn cael ei ddirymu, gyda chyfres newydd o Ordinhadau AD yn cael eu cyflwyno. Nodwyd bod Statud XX yn ymdrin â disgyblu, diswyddo a chwynion staff academaidd a’i fod wedi dyddio o gymharu â chyfraith gyflogaeth gyfredol. Byddai'r Ordinhadau newydd yn cwmpasu'r holl faterion hyn, i'r holl staff, mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu cyfraith cyflogaeth ac ymarfer gorau yn y sector addysg uwch, heb unrhyw anfantais i staff mewn perthynas â'r trefniadau. Nodwyd y byddai diddymu Statud XX a'r Ordinhadau cysylltiedig hefyd yn gweithredu i ddileu'r darpariaethau hynny o'r contractau cyflogaeth perthnasol. Wrth ddarparu cyngor i'r Cyngor, cyfeiriodd Ms Mortlock at y briff ysgrifenedig, dyddiedig 20 Medi 2021, a gylchredwyd i'r Cyngor cyn y cyfarfod.

Nodwyd bod trafodaethau gyda'r tair undeb llafur ar y campws yn parhau, gyda chynnydd da yn cael ei wneud. Roedd cynllun wedi'i lunio i gytuno ar yr Ordinhadau adnoddau dynol newydd erbyn i'r Siarter Atodol newydd ddod i rym (na fyddai cyn Ionawr 2022). Nodwyd bod y brifysgol yn hyderus y gellid cyflawni'r nod, ac roedd pob un o'r tair Undeb Llafur ar y Campws hefyd wedi nodi bod modd cyflawni'r amserlen.

Fodd bynnag, dywedodd Ms Mortlock wrth y Cyngor, pe na bai'r Ordinhadau'n cael eu cytuno erbyn i'r Siarter Atodol ddod i rym, byddai bwlch byr, pan fyddai cyfraith cyflogaeth gyffredinol a chodau ymarfer statudol ACAS yn berthnasol i faterion staff, hyd nes y byddai'r Ordinhadau wedi eu cytuno, ac wedi hynny byddent yn dod gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo. Cadarnhaodd Ms Mortlock fod y tri Undeb Lafur y Campws yn ymwybodol o hyn.

C. Ar ôl ystyried y cyngor a roddwyd gan Ms Mortlock, **cytunodd** y Cyngor ar y penderfyniadau canlynol:

[a] Bod y Siarter Atodol (ynghlwm fel Atodiad I i gopi swyddogol y Cofnodion) yn cael ei chymeradwyo a'i mabwysiadu fel Siarter y Brifysgol gan ddisodli ac eithrio Siarter Atodol a Statudau presennol y brifysgol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor.

[a] Bod yr Ordinhadau rhifau 1-19, a 29-32 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y Cofnodion) yn cael eu cymeradwyo a'u mabwysiadu fel Ordinhadau y brifysgol gan ddisodli ac eithrio Ordinhadau cymharol presennol y brifysgol, yn amodol ar y Siarter Atodol newydd arfaethedig yn dod i rym, yn disodli ac yn eithrio Ordinhadau cymaradwy presennol y brifysgol rhif I, III, V, VI, VII, VIII, IX, XI, XII, XIII, XIV, XV, XVI, XIX, XX, XXA, XXI, XXIII , XXIV, XXV, XXIX, XXX, XXXI, XXXII, XXXIII.

[c] Bod yr Ordinhadau presennol sydd wedi eu rhifo XXII, XXVI, XXVII, XXVIII ac Atodiad i Ordinhad XXVIII y brifysgol yn cael eu diddymu yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor i Siarter Atodol newydd y brifysgol ac yn dod i rym ar ôl cael y gymeradwyaeth honno.

[d] Bod y Cyngor trwy hyn yn dirprwyo pŵer i'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau ansylweddol pellach i'r Siarter fel y bo'n ofynnol gan y Cyfrin Gyngor neu a ystyrir yn angenrheidiol gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

## 21.6 MATERION Y CADEIRYDD

A. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am gamau gweithredu'r Cadeirydd yn ddiweddar mewn perthynas â mater MSParc/WEFO y rhoddwyd gwybod amdano'n flaenorol i'r Cyngor [cofnod 20.106B [i]]. Nodwyd bod diweddariad hefyd wedi'i ddarparu i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn gynharach y diwrnod hwnnw.

B. Atgoffwyd y Cyngor fod y brifysgol wedi derbyn llythyr yn ddiweddar gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ynglŷn â'r Prifysgol.

Mer'r Prifysgol yn cefnogi trafodaeth efo WEFO yn eu trafodaethau gyda Llys Archwilwyr Ewrop.

Nodwyd bod y cytundebau cyllido mewn perthynas â'r mater wedi'u diwygio fel rhan o'r trafodaethau gyda WEFO, ac roedd WEFO wedi gofyn i'r cytundebau diwygiedig gael eu llofnodi ar ran y brifysgol gyda chymeradwyaeth y Cyngor. Oherwydd y dyddiad cau a osodwyd ar y brifysgol, roedd y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth wedi gwneud y penderfyniad i awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro i lofnodi a dychwelyd y dogfennau.

C. Nododd y Cyngor y diweddariad a ddarparwyd gan y Cadeirydd, ac adroddwyd y rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth wrth i faterion ddatblygu.

**21.7 MATERION YR IS-GANGHELLOR**

**A.** Amcanion y Pwyllgor Gweithredu 2021/22

Dywedodd yr Is-ganghellor mai 2021/22 oedd dechrau ei drydedd flwyddyn fel Is-ganghellor y brifysgol, a byddai blwyddyn academaidd 2021/22 yn flwyddyn allweddol i'r brifysgol wrth iddi ddod allan o'r pandemig Covid-19 a'i heriau cysylltiedig.

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Pwyllgor Gweithredu wedi cyfarfod yn ddiweddar ar gyfer Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd Strategol, y cyntaf o dair sesiwn gyswllt yn ystod y flwyddyn academaidd, i sicrhau bod yr amcanion a osodwyd yn y Cynllun Strategol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyraeddadwy. O ganlyniad i'r Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd, lluniwyd set o 19 amcan, gydag aelod arweiniol o'r Pwyllgor Gweithredu yn gyfrifol am bob un.

Nododd y Cyngor yr amcanion a ddarparwyd gan yr Is-ganghellor ac, yn dilyn cwestiynau, cadarnhaodd yr Is-ganghellor y byddai'r amcanion yn cael eu mireinio yn ystod yr wythnosau nesaf gyda phapur manylach yn cael ei ddwyn gerbron y Cyngor ym mis Tachwedd.

**B. Adroddiad y Pwyllgor Gweithredu**

Cyflwynodd yr Is-ganghellor adroddiad y Pwyllgor Gweithredu a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar faterion addysg uwch ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:

**[a] Tablau Cynghrair**

Dywedodd yr Is-ganghellor wrth y Cyngor y byddai adroddiad manwl yn dod gerbron y cyfarfod nesaf ar y dulliau amrywiol o ymdrin â thablau cynghrair, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael golwg ar y ffynonellau data a ystyriwyd gan y gwahanol dablau cynghrair. Nodwyd canlyniadau rhai o'r tablau cynghrair a gyhoeddwyd dros yr wythnosau diwethaf, gyda rhai canlyniadau cadarnhaol i'r brifysgol, ac eraill yn llai cadarnhaol mewn perthynas â safle terfynol y brifysgol. Nododd yr Is-ganghellor y potensial enfawr i'r brifysgol wella ei safle mewn rhai tablau cynghrair allweddol, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo o fewn y tîm Cynllunio i ystyried hyn ymhellach.

Croesawodd Mr Avison y gwaith sy'n cael ei wneud ar y tablau cynghrair a dywedodd y gallai fod yn ddefnyddiol weld pa dablau cynghrair oedd wedi eu hoptimeiddio gan beiriannau chwilio, er mwyn deall y pwysiad a roddir i'r tablau gan fyfyrwyr.

**[b] Ysgol Feddygol ar gyfer Gogledd Cymru**

Croesawodd yr Is-ganghellor yr ymrwymiad strategol a dderbyniwyd gan Eluned Morgan AS, Barwnes Trelái a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod ei hymweliad diweddar mewn perthynas â sefydlu Ysgol Feddygol ar gyfer Gogledd Cymru. Nodwyd bod Cyfarwyddwr Gweithredol newydd wedi'i benodi i'r Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd a fyddai'n gweithio ar y rhyngwyneb gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, a hefyd, fel rhan o fwrdd rhaglen, yn gweithio tuag at greu, yn yr amser byrraf posibl, Ysgol Feddygol wedi'i ffurfio'n llawn sy'n cyflwyno rhaglenni israddedig ac ôl-radd. Nodwyd hefyd bod y berthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio'n dda a'i bod yn hanfodol i gyflawni'r project. Cadarnhawyd y byddai'r Is-ganghellor yn darparu diweddariad pellach i'r Cyngor ym mis Tachwedd.

**[c] Gweithredu Diwydiannol**

Dywedodd yr Is-ganghellor fod UCU wedi cadarnhau y byddai pleidlais ar gyfer gweithredu diwydiannol yn cael ei chynnal yn ystod mis Hydref, ynglŷn â phensiynau USS a materion yn ymwneud â chyflog, cydraddoldeb, llwyth gwaith a swyddi achlysurol. Tynnodd yr Is-ganghellor sylw’r aelodau at y camau sydd eisoes wedi eu gweithredu gan y brifysgol mewn perthynas â materion sy’n achosi anghydfod. Dywedwyd wrth y Cyngor fod y brifysgol eisoes wedi symud ymlaen â nifer o fentrau’n ymwneud â  chyflog, cydraddoldeb, llwyth gwaith a gwaith achlysurol. Adroddodd yr Is-ganghellor hefyd mewn perthynas ag USS, y cafwyd cydnabyddiaeth mewn cyfarfod diweddar o'r Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd, o barodrwydd y brifysgol i ymgysylltu ag UCU ar lefel leol yn ogystal â’r ymgynghoriad UUK.

Nododd Cadeirydd y Cyngor ei bod yn falch o weld y berthynas waith gadarnhaol sydd rhwng y brifysgol ac Undebau Llafur y Campws a'i bod yn gobeithio y gellid osgoi anghydfod diwydiannol er mwyn sicrhau profiad

myfyrwyr mor gadarnhaol ag y bo modd i'r myfyrwyr yn ystod y flwyddyn academaidd newydd, yn sgil heriau'r pandemig Covid-19.

**21.8 NEWYDDION DIWEDDARAF UNDEB Y MYFYRWYR**

A. Nododd y Cyngor yr adroddiadau a gyflwynwyd gan Undeb y Myfyrwyr a chan UMCB o dan eitem 6 ar yr agenda.

B. Yn benodol, tynnwyd sylw gan Mr Avison a Mr Dafydd at y pwyntiau canlynol:

- Gwnaed gwaith ar weithgareddau Croeso 2021 Undeb a phrif ddigwyddiad yr wythnos sef yr ŵyl groeso. Gan y bu'n rhaid addasu i ganllawiau Covid-19 byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal trwy gydol yr wythnos groeso, yn hytrach na bod yn ddigwyddiad ar un diwrnod;

- Roedd trawsnewid Canolfan Gweithgareddau Undeb Bangor yn adeilad y Ffriddoedd bron wedi'i gwblhau a byddai'n barod ar gyfer canol mis Hydref;

- Ar hyn o bryd roedd Undeb y Myfyrwyr yn adolygu penodi archwilydd allanol, ac roedd proses dendro ffurfiol ar y gweill;

- Roedd Undeb Bangor wedi ei gosod yn uchel yn 20 uchaf tabl cynghrair Student Crowd am y Prifysgolion Gorau ar gyfer Undeb Myfyrwyr, a'r Prifysgolion Gorau ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau. Roedd yr Undeb hefyd, unwaith eto, wedi derbyn y Wobr Rhagoriaeth Effaith Werdd am waith cynaliadwyedd;

- Mae UMCB wedi bod yn hyrwyddo'r cyfleoedd a gynigir gan Dysgu Cymraeg/Learn Welsh a'r gwersi Cymraeg am ddim i fyfyrwyr a gynigir gan y brifysgol;

- Roedd gwaith ar y gweill i hysbysebu Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan fod y niferoedd a wnaeth gais wedi gostwng 50% ers y flwyddyn flaenorol;

- Byddai Gŵyl UMCB yn cael ei chynnal ar draws gwahanol leoliadau ym Mangor yn ystod wythnos Shwmae/Su'mae.

C. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Mr Avison a Mr Dafydd am eu hadroddiadau.

**21.9 GWYBODAETH DIWEDDARAF AR RECRIWTIO MYFYRYWYR**

A. Rhoddodd y Prif Swyddog Marchnata y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y sefyllfa gyfredol o ran recriwtio myfyrwyr a dywedodd y bu'n flwyddyn heriol i'r brifysgol. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn falch o nodi yn dilyn ymdrech enfawr gan staff academaidd a gwasanaethau proffesiynol, bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr a gafodd eu recriwtio ar gyfer sesiwn 2021/22. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:

- Roedd risg o ddiffyg o hyd yn erbyn y targed ar gyfer niferoedd israddedigion cartref/UE, ôl-raddedigion cartref/UE ac israddedigion tramor;
- Roedd yn edrych yn debyg y bydd recriwtio ôl-raddedigion tramor yn cwrdd â'r targed.
- Yn gyffredinol, roedd risg o ddiffyg incwm o c. £4.4m.

Yn ogystal, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro fod y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 wedi rhoi'r brifysgol mewn sefyllfa lle gallai barhau i gynllunio i fuddsoddi yn ystod 2021/22.

B. Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan yr aelodau a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd cyfran y brifysgol o'r farchnad myfyrwyr sy'n hanu o Gymru fymry yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ond roedd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr wedi dod o Loegr;
- Roedd y penderfyniadau a wnaed gan brifysgolion Grŵp Russell i dderbyn bron pob myfyriwr eleni wedi arwain at gronfa fach iawn o fyfyrwyr yn mynd mewn i'r broses glirio.
- Yn dilyn adolygiad o'r cwricwlwm roedd portffolio newydd o raglenni yn cael ei farchnata ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, gan ddarparu portffolio o bynciau wedi eu hadnewyddu ar gyfer y farchnad;
- Y strategaeth barhaus wrth symud ymlaen fyddai sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn dewis Bangor fel eu dewis cyntaf, yn hytrach na dewis yswiriant.

C. Croesawodd y Cyngor y newyddion cadarnhaol mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr a nododd, gyda diolch, waith caled ac ymroddiad staff ar draws y sefydliad.

**21.9 AROLWG CENEDLAETHOL MYFYRWYR**

A. Rhoddodd yr Athro Turnbull drosolwg i'r Cyngor o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr ar gyfer 2021. Nodwyd bod cyfradd boddhad gyffredinol y brifysgol wedi gostwng yn sylweddol i 75% yn y canlyniadau diweddaraf (i lawr 10% o 2020). Yn ogystal, roedd safle'r brifysgol yn y DU wedi gostwng i 73 (i lawr o 28 y llynedd), gan ei gosod 6ed yng Nghymru. Roedd y rhan fwyaf o sgoriau boddhad ar draws y brifysgol yn is na'r llynedd, yn ôl thema, mewn termau cymharol ac absoliwt, ac roedd y sgorau yn arbennig o siomedig mewn meysydd fel Trefniadaeth a Rheolaeth ac ar gyfer nifer o'r metrigau addysgu lle'r oedd y brifysgol wedi gwneud yn dda yn draddodiadol.

Dywedodd yr Athro Turnbull fod amrywiad sylweddol ar draws ysgolion, gyda chwech o'r naw ysgol yn perfformio'n uwch na'r cyfartaledd, yn aml llawer yn uwch. Cymerwyd sawl ffactor i ystyriaeth mewn perthynas â safle'r brifysgol a'r gostyngiad yn ystod y flwyddyn, sef effaith Covid-19, streic yn ystod 2019-20, y broses ailstrwythuro a pherfformiadau gwael mewn rhai meysydd pwnc.

Cyfartaledd y brifysgol oedd 75, ac roedd tair ysgol a sgoriodd yn is na'r cyfartaledd ac roedd gwaith eisoes wedi dechrau gyda chynllun ar gyfer ymgysylltu trwy gydol y flwyddyn, dan arweiniad yr Athro Turnbull.

B. Gofynnodd aelodau'r Cyngor nifer o gwestiynau, a gwnaed y pwyntiau canlynol yn benodol:

[1] Gofynnodd Ms Perkins am sicrwydd, er bod cynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r ysgolion nad oeddent wedi sgorio mor uchel, na fydd ffocws ac egni'r Ysgolion a sgoriodd orau yn cael ei golli.

Cadarnhaodd yr Athro Turnbull, er bod y ffocws yn naturiol ar yr ysgolion â'r sgorau isaf, ni fyddai’r ysgolion eraill o dan anfantais.

[2] Gofynnodd Dr Davies ble y gallai'r brifysgol sicrhau ei bod yn casglu data cynnar a allai ddangos arwyddion o broblemau gydag ysgolion neu raglenni arbennig, fel y gellir gweithredu ar faterion yn gyflym.

Nododd yr Athro Turnbull y byddai swyddogaeth y Pwyllgorau Cyswllt Staff/Myfyrwyr yn allweddol i hyn wrth symud ymlaen, yn ogystal â gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr.

[3] Gofynnodd Syr Paul Lambert a oedd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, a'r data cysylltiedig wedi datgelu materion nad oedd y brifysgol eisoes yn ymwybodol ohonynt.

Cadarnhaodd yr Athro Callow fod rhai materion a oedd eisoes yn hysbys i'r brifysgol, gan eu bod yn ymwneud â materion etifeddol yn gysylltiedig â rhaglenni lle roedd yr addysgu yn cael ei ddirwyn i ben. Roedd y brifysgol yn obeithiol yn y meysydd hyn y byddai'r newidiadau a'r gwelliannau a wnaed i'r cwricwlwm a'r cynlluniau gweithredu sydd wedi eu sefydlu, yn sicrhau na fyddai'r un materion yn codi eto.

[4] Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar y broses recriwtio mewn perthynas â'r ychydig swyddi Penaethiaid Ysgol olaf, a chadarnhawyd bod recriwtio yn symud ymlaen gyda'r swyddi hyn. Yn ogystal, cadarnhawyd bod hyfforddiant uwch arweinyddiaeth, ar gyfer Penaethiaid Ysgol yn benodol yn cael ei ddatblygu, dan oruchwyliaeth y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

[5] Gofynnodd Mr Williams a oedd problem bosibl gyda morâl isel ymhlith rhai aelodau staff, yn dilyn yr ymarfer ailstrwythuro, wedi cyfrannu at unrhyw un o'r materion a ddaeth i’r wyneb gyda chanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Nododd Mr Williams fod y corff myfyrwyr wedi bod yn gefnogol i staff yn ystod y broses ailstrwythuro, a gofynnodd a allai'r ymarfer ailstrwythuro diweddar, sef yr un mwyaf diweddar o nifer o ymarferion o'r fath dros y blynyddoedd diwethaf, fod wedi cael effaith ar y canlyniadau.

Atgoffodd yr Is-ganghellor y Cyngor fod yr ymarfer ailstrwythuro wedi'i gynnal ar sail egwyddorion cadarn a gymeradwywyd gan y Cyngor. Yn ogystal, llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Undebau Llafur y

Campws a oedd wedi arwain at drefniant gweithio tryloyw gyda'r tair undeb yn ystod yr ymarfer ailstrwythuro. Wrth symud ymlaen roedd y brifysgol yn datblygu ei Strategaeth Pobl yn Gyntaf ac er ei bod yn poeni am gyfnod pellach posibl o weithredu diwydiannol, roedd y cydweithio â'r undebau yn parhau i fod yn gadarnhaol. Yn ogystal, ac fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y cyfarfod, roedd y brifysgol mewn sefyllfa ariannol gryfach o lawer, gyda niferoedd cynyddol o fyfyrwyr ac felly gallai edrych i'r dyfodol gyda pheth optimistiaeth.

[6] Dywedodd Mr Avison fod Undeb y Myfyrwyr ar hyn o bryd yn gweithio ar ei Adroddiad Profiad Myfyrwyr a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Yn ogystal, roedd Undeb y Myfyrwyr yn bwriadu gweithio gyda chynrychiolwyr cyrsiau yn ystod y flwyddyn academaidd i roi sylw i unrhyw faterion yn gynnar, fel y gallai'r brifysgol weithredu.

C. Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Turnbull am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth, a hefyd i aelodau'r Cyngor am drafod y mater, gan godi rhai pwyntiau pwysig i'w hystyried ymhellach.

## 21.10 ADRODDIAD BLYNYDDOL YSTADAU

A. Cyflwynodd Mr Wiegand Adroddiad Blynyddol Ystadau i'r aelodau. Atgoffwyd y Cyngor mai ystad y brifysgol yw un o'i brif gyfrifoldebau. Yn ogystal, roedd Cod Rheoli Ariannol HEFCW yn cynnwys adran ar reoli'r Ystad yn ddarbodus a nodi y dylai Cyrff Llywodraethu dderbyn adroddiad blynyddol yn amlinellu perfformiad Ystadau. Rhoddodd yr Adroddiad wybodaeth i aelodau am ffeithiau a ffigurau allweddol, y rhaglen drawsnewidiol a gyflawnwyd yn yr adran, y gwaith a wnaed i gwrdd ag anghenion datblygu'r brifysgol, gwybodaeth am ynni a'r amgylchedd a gweithgareddau caffael.

B. Diolchodd y cadeirydd i Mr Wiegand am yr adroddiad manwl, a ***chadarnhaodd*** y Cyngor bod y ddogfen yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â'r prif gyfrifoldeb hwn.

C. Ystyriodd y Cyngor y diweddariadau a roddwyd yn y log gweithredu mewn perthynas â gwerthu eiddo. Yn benodol tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws sylw'r Cyngor at y mater a ganlyn:

[1] Pen y Ffridd: dywedwyd wrth y Cyngor fod y mater yn mynd rhagddo, a disgwylid cyfnewid a chwblhau cyn bo hir.

[2] Ynys Faelog: adroddwyd y byddai'r gwerthiant wedi ei gwblhau erbyn diwedd y dydd.

## 21.11 DATGANIAD AR GAETHWASIAETH A MASNACHU POBL

A. Cyflwynodd Mrs Hine ddatganiad blynyddol y brifysgol ar gaethwasiaeth a masnachu pobl. Nodwyd bod un cam gweithredu wedi'i ddwyn ymlaen o'r flwyddyn

academaidd flaenorol a gofynnodd y Cyngor i Mrs Hine ofyn am sicrwydd gan y perchennog y byddai'r cam gweithredu yn cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn academaidd gyfredol.

B. ***Cymeradwyodd*** y Cyngor y datganiad a fyddai'n cael ei atodi i gyfrifon y brifysgol ar gyfer 2020/21 a'i arddangos ar wefan y brifysgol.

**21.12 PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH**

A. Rhoddodd Syr Paul Lambert adroddiad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a gynhaliwyd yn gynharach yn y dydd.

B. Tynnwyd sylw'r Cyngor yn benodol at y materion canlynol:

[1] Ystyriodd y Pwyllgor ganlyniadau ariannol Chwarter 3;
[2] Darparwyd diweddariad ar Gynllunio Strategaethau a Busnes gan y Pennaeth Cynllunio; a
[3] Chymeradwywyd y Fframwaith Rheoli Rhaglenni Cyfalaf.

**21.13 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG**

A. **Cymeradwywyd** yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd 10 Medi 2021 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion). Tynnwyd sylw aelodau yn benodol at yr Adroddiad Cwynion Blynyddol a groesawyd gan y Pwyllgor, yn enwedig y niferoedd isel mewn perthynas â chwynion ynglŷn â’r ymateb i’r pandemig

B. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar y risgiau corfforaethol gweddilliol eithafol ac uchel a nododd bod 12 o’r 23 risg sydd ar Gofrestr Risgiau Corfforaethol y brifysgol yn cael eu dosbarthu’n weddillol eithafol neu uchel, h.y., o gymhwyso dulliau rheoli'r brifysgol, y rhai a fyddai'n cael effaith fawr neu gritigol, ac sy'n debygol neu bron yn sicr o ddwyn ffrwyth yn y 1-3 blynedd nesaf.

**21.14 PWYLLGOR DISWYDDIADAU**

**Cymeradwywyd** yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Diswyddiadau a gynhaliwyd 28 Gorffennaf 2021 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion).Nododd Dr Rees, fel Cadeirydd, mai hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor sydd wedi cael ei ymgorffori yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd.

**21.15 PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU**

A. **Cymeradwywyd** yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 17 Mehefin 2021 (ynghlwm fel Atodiad V i gopi swyddogol y cofnodion) a **nodwyd** y penodiadau i’r Pwyllgorau a’r Cyrff Allanol.

B. Tynnwyd sylw'r Cyngor yn benodol at y materion canlynol:

[1] Gwnaed mân ddiwygiadau i Bolisi a Gweithdrefnau Is-gwmnïau’r brifysgol [Cofnod 242] i ddarparu eglurder pellach mewn perthynas ag aelodaeth bwrdd.

[2] Roedd y broses i benodi olynydd i Dr Griff Jones wedi cychwyn, gyda chais am dri dyfynbris gan ben-helwyr, fel sy'n ofynnol yn ôl prosesau caffael y brifysgol. [cofnod 243B].

[3] Bydd Mr Atul Devani yn ymuno â Bwrdd MSParc fel olynydd i Dr Karen Jones.

## 21.16 FFORWM YMGYSYLLTU AR Y CYD

**Cymeradwywyd** yr adroddiad ar gyfarfod cyntaf y Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd a gynhaliwyd 17 Medi 2021 (ynghlwm fel Atodiad VI i gopi swyddogol y cofnodion).Croesawodd y Cadeirydd y trafodaethau cadarnhaol ynglŷn a chynllun pensiwn USS, y Siarter, y Statud ac Ordinhadau

## 21.17 SELIO

**Cadarnhaodd** y Cyngor selio’r dogfennau a restrwyd yn Agendum 15.

## 21.18 FFARWELIO

**Nododd** y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Cyngor i Dr Karen Jones gan ei bod wedi cwblhau ei dau dymor fel aelod annibynnol ar y Cyngor. Nododd y Cadeirydd, gan nad oedd Karen yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor, y byddai'n ysgrifennu ar ran y Cyngor i ddiolch yn gynnes i Karen am ei hymroddiad a'i chefnogaeth i'r brifysgol dros nifer o flynyddoedd.